

Bwrdd Cymwysterau Cymru QWB28E

Cofnodion cyfarfod Eithriadol Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2020

Mynychwyr (drwy gysylltiad fideo):

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan,

David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Yn bresennol (drwy gysylltiad fideo):

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Kay Powell (EKP), Helen Murray (HM), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG), Laura Hughes (LH), Osian Llewelyn (OL), Tom Anderson (TA), Kerry Davies (KD), Jo Valentine (JV)

Ymddiheuriadau:

Arun Midha

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Arun Midha.
- 1.3. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant. Ailadroddodd dau aelod o'r Bwrdd wrthdaro buddiannau a ddatgelwyd eisoes fod ganddynt blant a fyddai wedi bod yn sefyll arholiadau yng Nghyfres Haf 2020.
- 1.4. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranwyr ar ran y Bwrdd am y papurau cynhwysfawr yr oeddent wedi'u darparu ar gyfer y cyfarfod, a dywedodd eu bod yn dangos proffesiynoldeb, diwydrwydd, ystyriaeth sensitif a dyfnder dealltwriaeth yng Nghymwysterau Cymru am y materion yr ymdriniwyd â hwy.
- 1.5. Croesawyd Jo Valentine o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod.

2. Meini prawf ar gyfer dewis y modelau safoni ystadegol terfynol

- 2.1. Cyflwynodd Tom Anderson ei bapur ar y meini prawf y byddai'r sefydliad yn ystyried cynigion CBAC ar gyfer y modelau safoni ystadegol terfynol yn eu herbyn. Dechreuodd drwy roi esboniad lefel uchel o safoni. Eglurodd TA mai'r broses oedd cyfrifo set o raddau ar gyfer dysgwyr mewn canolfan ar gyfer cymhwyster penodol ac y byddai'r graddau hynny wedyn yn cael eu dyrannu i ddysgwyr yn seiliedig ar y drefn restrol a ddarperir gan y ganolfan. Felly, roedd yn gyfuniad o ddata a ddarperir gan y ganolfannau (y drefn restrol) a data o fodel ystadegol (cyfres o raddau wedi'u

cyfrifo). Esboniodd TA ymhellach fod safoni'n cael ei wneud ar lefel canolfan ac yna'n cael ei agregu hyd at lefel genedlaethol.

- 2.2. Disgrifiodd TA sut y gellid pennu set o raddau sydd ar gael i ganolfan gan ddefnyddio cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr a data hanesyddol. Esboniodd TA ei fod yn disgwyl i CBAC wneud argymhelliad ar gyfer defnyddio gwahanol fodolau ar gyfer gwahanol fathau o gymwysterau (Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a gwahanol fathau o TGAU) yn dibynnu ar y data cyrhaeddiad blaenorol sydd ar gael. Lle nad oedd data cyrhaeddiad blaenorol ar gael o'r cymhwyster ei hun (e.e. o unedau blaenorol a gymerwyd) byddai TA yn disgwyl i CBAC wneud argymhelliad i ddefnyddio cyrhaeddiad blaenorol o ganlyniadau blaenorol yn y ganolfan yn y model (e.e. canlyniadau carfannau diweddar a thystiolaeth arall fel data profion cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru). Yna gwahoddodd TA gwestiynau gan aelodau'r Bwrdd ar y broses.
- 2.3. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd cryfder gallu carfan ar draws ystod o bynciau yn cael ei ystyried. Er na ellid cyflawni hyn mewn model ystadegol, ymatebodd TA, ei bod yn debygol y byddai CBAC yn argymhell y byddai gradd TGAU cymedrig dysgwr yn cael ei chynnwys yn y model ar gyfer Uwch Gyfrannol.
- 2.4. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd sut yr ymdrinnid â charfannau llai lle gallai rhagfynegiadau ystadegol ar lefel canolan fod yn llai dibynadwy. Nododd TA mai opsiwn yn yr achos hwn fyddai ystyried dyfarnu'r radd a ddarperir yng Ngraddau Asesu Canolfannau (CAGs).
- 2.5. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am gyfran y dysgwyr na fyddai ganddynt fawr ddim data cyrhaeddiad blaenorol. Esboniodd TA, ar yr amod bod y caniatâd angenrheidiol yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru, y byddai data cyrhaeddiad ymlaen llaw ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, ond nododd y byddai rhai eithriadau, er enghraifft, ysgolion annibynnol lle na fyddai data cyrhaeddiad blaenorol Llywodraeth Cymru ar gael. Esboniodd TA fod opsiynau ar gael ar gyfer cyfrifo'r graddau hynny ac roedd yn disgwyl i CBAC gynnwys y senarios hyn yn eu hargymhellion.
- 2.6. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd i ba raddau y byddai Graddau Asesu Canolfannau (CAGs) yn cael eu defnyddio yn y model. Esboniodd TA na fyddai dibynadwyedd y CAGs yn hysbys nes iddynt gael eu derbyn. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd mai canfyddiad y cyhoedd yn bennaf oedd y byddai'r graddau a ragwelir gan athrawon yn cael eu defnyddio i gyfrifo graddau, ond mewn gwirionedd dim ond elfen o'r cyfrifiadau fyddai hyn ac roedd yn bwysig cael y negeseuon yn iawn o amgylch y mater hwn. Esboniodd PB fod Cymwysterau Cymru yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth ym mis Gorffennaf i ddisgrifio mewn ffordd hygyrch sut y byddai graddau'n cael eu cyfrifo.
- 2.7. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd cyfran y dysgwyr y gallai eu graddau gael eu newid gan y modelau safoni yn hysbys. Esboniodd TA y byddai dadansoddiad ystadegol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd pan gyflwynir modelau i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. Esboniodd TA y gellid profi model ar ddata hanesyddol i gyfrifo canran y dysgwyr sy'n cael yr un radd ag a gawsant yn y pen draw a chanran y

dysgwyr sy'n cael o un radd yn uwch neu'n is na'u gradd yn y pen draw. Egluroodd TA fod modelu cychwynnol yn dangos y byddai 90-95% o ymgeiswyr hanesyddol wedi cael o fewn un radd yn uwch neu'n is na'r hyn a gawsant mewn gwirionedd ac y byddai tua 50% wedi derbyn yr union radd. Esboniodd TA ymhellach, er ei bod yn anodd meincnodi'r canlyniadau hyn, mai dim ond i un radd yn uwch neu'n is y byddai hyd yn oed y system arholiadau arferol yn gywir (e.e. gallai dysgwr berfformio'n wahanol ar y diwrnod a chwympo ar un ochr i'r ffin gradd). Felly, gellid dadlau mai dim ond yn fras yr oedd graddfa cywirdeb model ystadegol yn debyg i rai'r arholiadau. Esboniodd TA ymhellach y byddai'r CAGs, y graddau o safoni a dosbarthiad graddau a ragwelwyd yn cael eu dadansoddi, ond roedd yn annhebygol y gellid paratoi'r dadansoddiad hwn mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd gan nad yw CBAC wedi cwblhau eu holl waith eto i ddilysu'r data CAG.

- 2.8. Dywedodd aelodau'r Bwrdd fod y ffigur o 90-95% yn ddangosydd da o gywirdeb y model, gan gydnabod y byddai rhai unigolion y tu allan i'r paramedr hwn.
- 2.9. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am eglurhad ynghylch a fyddai'r Bwrdd yn cael data ar ddeilliannau dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig. Ymatebodd TA y byddai gwybodaeth am fylchau cyrhaeddiad cenedlaethol yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd pan gyflwynwyd y modelau arfaethedig. Byddai gwybodaeth y gellid ei darparu ar gyfer Safon Uwch yn llai cynhwysfawr nag ar gyfer TGAU oherwydd argaeledd data. Gellid darparu dadansoddiad o ganlyniadau yn ôl rhyw ar gyfer pob cymhwyster. Esboniodd TA mai'r bwriad oedd parhau â'r gwaith ar ddadansoddi effaith cydraddoldeb ar ôl y canlyniadau. Esboniodd TA ymhellach y byddai'n anodd cymryd unrhyw gamau i newid bylchau cyrhaeddiad wrth gynnal y drefn restrol a ddarperir gan ganolfannau. Prin oedd y camau y gellid eu cymryd (e.e. derbyn canlyniadau cenedlaethol ychydig yn uwch pe bai'n sicrhau bod bwch cyrhaeddiad yn cyd-fynd) ond gall hyn gael effaith negyddol ar fylchau cyrhaeddiad eraill felly gall opsiynau ymarfer fod yn eithaf cyfyngedig. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd bwysigrwydd y canllawiau i ysgolion a cholegau ynghylch eu dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus a nododd y byddai'r cyfle i gymryd unrhyw gamau dilynol drwy'r model ystadegol yn gyfyngedig.
- 2.10. Dywedodd aelodau'r Bwrdd mai pwynt cyffredinol a godwyd o'r ymgynghoriad oedd nad oedd yr addasiadau ar gyfer dysgwyr anabl a wnaed mewn canolfannau yn ystod addysgu a dysgu mor helaeth â'r rhai a wnaed yn ystod arholiadau a byddai'n werth craffu'n derfynol ar ganlyniadau o safbwynt dysgwyr ag anabledd ac anghenion addysgol arbennig.
- 2.11. Crynhodd LH ar gyfer y Bwrdd ei rwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- 2.12. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am y data ystadegol a oedd ar gael ar gyfer y cymwysterau newydd. Ymatebodd TA fod yr holl gymwysterau wedi'u dyfarnu o'r blaen, ond nad oedd pob un ohonynt wedi cael eu dyfarnu droeon. Esboniodd TA mai'r dull mwyaf dilys oedd defnyddio data ar y cymwysterau presennol, a byddai'n disgwyl i CBAC egluro yn eu cynnig a fyddent yn defnyddio unrhyw ddata o gymwysterau etifeddol. Dywedodd TA mai'r unig sail i ddefnyddio data etifeddol

fyddai pe bai'n gwella cywirdeb y model. Yn yr achos lle nad oedd cymwysterau ond wedi'u dyfarnu unwaith a'r canlyniadau hynny'n is na'r blynyddoedd blaenorol, byddai dadl dros dueddu tuag at yr ochr gadarnhaol wrth ddyfarnu canlyniadau eleni.

- 2.13. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd hyder yn CBAC yn edrych ar yr holl faterion a grybwyllwyd. Ymatebodd TA fod Cymwysterau Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda CBAC drwy gydol y broses, bod dadansoddiad o fodolau a ddefnyddiwyd mewn awdurdodaethau eraill wedi'i ystyried ac roedd hyder bod yr holl brif faterion yn cael eu hystyried.
- 2.14. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a fyddai mwy o bwyslais yn cael ei briodoli i CAGs ar gyfer ysgolion annibynnol oherwydd diffyg data cyrhaeddiad blaenorol ac a ellid sicrhau tegwch felly. Ymatebodd TA fod sawl opsiwn; Gallai CAGs chwarae mwy o rôl a byddai canlyniadau hanesyddol hefyd ar lefel canolfannau ar gyfer y canolfannau hynny. Esboniodd TA fod llawer o ysgolion annibynnol yng Nghymru yn defnyddio TGAU 9-1 Lloegr yn hytrach na TGAU A*-G Cymru felly nid oedd nifer y cymwysterau y byddai model CBAC yn pennu graddau ar eu cyfer yn uchel. Esboniodd TA y gallai canlyniadau lefel hanesyddol y ganolfan yn y canolfannau hynny a oedd yn arfer dewis myfyrwyr fod yn sefydlog dros amser ac felly'n eithaf cywir wrth bennu graddau wedi'u cyfrifo.
- 2.15. Yna amlinellodd TA'r penderfyniadau a drefnwyd ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod. Esboniodd TA y byddai angen gwneud y penderfyniad i gymeradwyo model CBAC ar gyfer Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch ddiwedd mis Mehefin ac ar ddechrau mis Gorffennaf byddai angen y penderfyniad ar gyfer TGAU a Thystysgrif Her cyfnod allweddol 4. Esboniodd y byddai CBAC yn gwneud cynnig i Gymwysterau Cymru a fyddai wedyn yn cael ei drafod gyda nhw. Yna byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ynghyd â barn swyddogion arno ac argymhelliad ynghylch a ddylid ei dderbyn ai peidio. Esboniodd TA y byddai'n gynnig sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r meini prawf yn yr amodau (dilysrwydd, dibynadwyedd, hydrinedd, cymaroldeb a thegwch). Esboniodd TA ymhellach y byddai metrigau cywirdeb yn cael eu cyflwyno o ran pa mor gywir oedd pob model wedi bod yn defnyddio data hanesyddol (ar lefelau dysgwyr, canolfannau a charfan). Roedd y metrigau cywirdeb a ddefnyddir ar y cyfan yr un fath ar draws awdurdodaethau, gydag ambell eithriad. Cynigiodd TA y byddai cywirdeb metrigau lefel dysgwyr a charfannau yn cael blaenoriaeth dros fetrigau lefel canolfan mewn ystyriaethau. Nododd TA y byddai hydrinedd yn ystyriaeth allweddol o ran gallu CBAC i ddyfarnu graddau gan ddefnyddio unrhyw fodel penodol o fewn yr amserlen sydd ei hangen.
- 2.16. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau byr gan y Bwrdd.
- 2.17. Dywedodd aelodau'r Bwrdd eu bod yn fodlon â'r cynigion yn y papur ar yr amod bod ystyriaeth ar wahân o ogwydd yn hytrach na'i gynnwys gyda "Dibynadwyedd" (gan gyfeirio at baragraff 2.8 o'r papur). Eglurodd TA y byddai Cymwysterau Cymru yn gallu edrych ar gywirdeb ac unrhyw dystiolaeth o ogwydd ar lefel genedlaethol

ar wahân yn nata hanesyddol y dull arfaethedig a hefyd ar ôl i'r model gael ei gymhwyso i ddata'r drefn restrol.

- 2.18. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a fyddai tueddu tuag at yr ochr gadarnhaol gyda chymwysterau newydd, ar draul cymwysterau hir sefydlog. Eglurodd TA nad oedd yn fwriad i drin cymwysterau newydd yn fwy ffafriol, ond cofio mai dim ond unwaith o'r blaen y cawsant eu dyfarnu.
- 2.19. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd barn am yr hyn a fyddai'n cael ei dderbyn fel canlyniadau "cymharol debyg". Esboniodd TA nad oedd hyn wedi'i ddiffinio hyd yn hyn, ond y byddai angen ei ystyried cyn gwneud penderfyniadau ar y canlyniadau terfynol.
- 2.20. Dywedodd y Cadeirydd fod cefnogaeth eang i'r meini prawf a gyflwynwyd a gofynnodd am unrhyw bryderon penodol gan aelodau'r Bwrdd.
- 2.21. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd safbwynt ystadegol arall y gellid ei gyflwyno ar gyfer y rhai nad oeddent yn fodlon â'u canlyniadau. Esboniodd TA fod llawer o fodolau ystadegol posibl y gellid ei ddefnyddio i gyfrifo graddau ond defnyddiodd y dulliau a gynigir gan CBAC ddata dibynadwy a rhagweladwy i gyfrifo graddau mewn ffordd gyson ar draws y garfan. Roedd yn annhebygol bod dull ystadegol amgen sy'n llawer mwy cywir neu deg.
- 2.22. Rhoddodd LH gyngor cyfreithiol ar gwmpas unrhyw heriau posibl i'r dadansoddiad ystadegol a'r ffocws posibl arnynt.
- 2.23. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd a oeddent yn cytuno â'r papur ac roeddent yn fodlon cytuno ar y meini prawf arfaethedig. Roedd y Bwrdd yn fodlon cefnogi'r meini prawf.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Cytunodd y Bwrdd ar y meini prawf ar gyfer dewis y modelau ystadegol terfynol

3. Trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau Haf 2020 - Adroddiad ar y penderfyniadau a wnaed yn dilyn ymgynghoriad

- 3.1. Cyflwynodd JR yr Adroddiad drafft ar benderfyniadau a wnaed yn dilyn ymgynghoriad ac adroddiad canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ar gyfer ei gyhoeddi.
- 3.2. Esboniodd JR fod yr Ymgynghoriad wedi derbyn dros 4,000 o ymatebion a'r bwriad oedd derbyn a gweithredu'r cynigion, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd. Roedd diwygiadau i rai o'r cynigion, a oedd yn fân addasiadau i eiriad neu uno rhai cynigion yn dilyn adborth drwy'r ymgynghoriad - amlinellwyd y rhain yn y tabl crynhoi (gan gyfeirio at dudalennau 22-25 yr adroddiad penderfyniadau).

- 3.3. Yna tynnodd JR sylw at yr ystyriaethau ychwanegol a wnaed ar gyfer ymgeiswyr preifat. Esboniodd JR fod y JCQ wedi gwneud trefniadau i sefydlu 'canolfannau dilysu' a allai gynnal asesiadau o ymgeiswyr preifat er mwyn darparu graddau asesu canolfannau i CBAC. Roedd un ganolfan ddilysu o'r fath yng Nghymru a gwelwyd bod llai na deg dysgwr wedi ymgymryd â'r broses hon. Yn ogystal, cynigiwyd y gellid addasu gweithdrefnau sefydledig a ddefnyddiwyd eisoes gan CBAC ar gyfer ymgeiswyr a oedd wedi colli arholiadau drwy salwch i ddarparu graddau wedi'u cyfrifo ar gyfer rhai ymgeiswyr preifat ychwanegol lle roeddent eisoes wedi cynnal o leiaf 25% o'r asesiad (e.e. unedau UG a fyddai'n mynd ymlaen i gyfrannu at Safon Uwch). Pwysleisiodd JR na fyddai hyn yn golygu y byddai pob ymgeisydd preifat yn gallu cael gradd yng nghyfres Haf 2020, ond byddai'n gwneud y mwyaf o'r graddau a ddyfarnwyd i ymgeiswyr preifat.
- 3.4. Esboniodd JR fod trafodaethau wedi'u cynnal hefyd gydag Addysg Bellach, Addysg Uwch a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar y mater hwn ac roeddent wedi nodi y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i lacio gofynion derbyn er mwyn caniatáu i ymgeiswyr preifat heb gymwysterau symud ymlaen. Yn yr un modd, ar gyfer ymgeiswyr o'r fath sy'n gwneud cais i gyrsiau hyfforddi athrawon, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ganiatáu i'r dysgwyr hyn fodloni meini prawf mynediad drwy sefyll arholiadau yn ystod y cwrs yn hytrach nag ar ôl eu derbyn.
- 3.5. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar y cynigion gan y Bwrdd
- 3.6. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd beth oedd y sefyllfa gyfatebol yn y gwledydd eraill. Ymatebodd JR, yn Lloegr pe na bai gan ymgeisydd radd wedi'i hasesu mewn canolfan neu drefn restrol, yna ni fyddai gradd wedi'i chyfrifo yn cael ei dyfarnu ac nad oedd y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon wedi'i chwblhau. Esboniodd JR mai'r gwahaniaeth allweddol oedd bod cymwysterau Lloegr i gyd yn llinol felly nid oedd amgylchiadau ymgeiswyr preifat sydd eisoes wedi cymryd unedau yn berthnasol. Ymatebodd PB nad oedd gan yr Alban ymgeiswyr preifat.
- 3.7. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd pa gyfran o ymgeiswyr preifat na fyddent yn cael gradd a sut y byddent yn cael eu hysbysu. Esboniodd JR fod ymgeiswyr preifat yn cael eu hysbysu drwy'r ymgynghoriad a thrwy ganllawiau a anfonwyd i ganolfannau. Esboniodd JR ymhellach fod y gyfran yn anodd ei hasesu, ond roedd CBAC yn gweithio ar y data hwn ar hyn o bryd. Dywedodd JR fod nifer gymharol fach o ymgeiswyr preifat yng Nghymru o gymharu â'r niferoedd yn Lloegr.
- 3.8. Roedd aelodau'r Bwrdd yn croesawu'r ffaith bod y cynigion wedi'u newid i alluogi mwy o ymgeiswyr preifat i dderbyn graddau wedi'u cyfrifo ond gofynnwyd a allai'r cynigion fod yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol pe bai'r grŵp nad oedd yn gallu cael graddau yn cynnwys nifer anghymesur o ymgeiswyr â nodweddion gwarchoddedig. Nodwyd ymhellach bod gan Gymwysterau Cymru gyfrifoldeb moesol ehangach i siarad dros ymgeiswyr preifat nad oeddent wedi cael graddau drwy unrhyw fai eu hunain.
- 3.9. Cynghorodd LH ar rwymedigaethau cyfreithiol o ran ymgeiswyr preifat â nodweddion gwarchoddedig.

- 3.10. Yna amlinellodd JR fater pellach yr oedd swyddogion wedi ystyried dull amgen o weithredu. Esboniodd JR efallai na fyddai data hanesyddol a ddefnyddir yn y model data yn gallu ystyried llwybr posib canlyniadau canolfan. Byddai data cyrhaeddiad blaenorol yn nodi rhai newidiadau mewn gallu, ond byddai'r data yn ddwy flwydd oed ar gyfer rhai cymwysterau TGAU (blwyddyn ar gyfer Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol). Esboniodd JR fod y mater hwn, yn ymarferol, yn berthnasol i'r cymwysterau TGAU hynny lle nad oedd data Blwyddyn 10 ar gael. Esboniodd JR fod y pryderon a fynegwyd o ymatebion i'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r data hanesyddol nad oeddent yn adlewyrchu llwybr y ganolfan (e.e. oherwydd newidiadau yn arweinyddiaeth, staffio neu strategaeth ysgolion). Yna amlinellodd JR y materion sy'n gysylltiedig â derbyn tystiolaeth ansoddol.
- 3.11. Esboniodd JR mai un mater oedd y math o dystiolaeth ansoddol y gellid ei chyflwyno i gefnogi achos o'r math hwn. Esboniodd JR y gwahanol fathau o dystiolaeth sydd ar gael a manteision a risgiau derbyn y dystiolaeth honno (gan gyfeirio at y tabl a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn y papur ategol).
- 3.12. Esboniodd JR mai'r unig dystiolaeth ddibynadwy fyddai canlyniadau arholiadau allanol, gan y byddai'r rhain wedi digwydd mewn amodau rheoledig a fyddai wedi bod yr un fath ym mhob canolfan ac a fyddai wedi'u marcio'n allanol i gynllun marcio safonol. Esboniodd JR na fyddai'r data hwn yn bodoli ar gyfer pob canolfan a byddai'r defnydd ohono'n peri rhwyg gan nad oedd rhai ysgolion yn ymgymryd ag ymgeisio cynnar fel mater o bolisi.
- 3.13. Dywedodd JR na fyddai pob ymyriad ysgol yn arwain at well canlyniadau ac roedd problemau ynghylch sut y byddai canolfannau'n dangos tystiolaeth y byddai unrhyw ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol.
- 3.14. Holodd JR sut y gellid defnyddio unrhyw dystiolaeth i newid y canlyniadau heb gyflwyno goddrychedd neu annhegwch ychwanegol.
- 3.15. Esboniodd JR fod cymhwyso'r model ystadegol ar gyfer safoni yn gyson yn ganolog i'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau ar gyfer cyfres Haf 2020 ac y byddai amrywio'r defnydd o'r model hwnnw ar gyfer dysgwr neu garfan yn annheg i ddysgwyr eraill a byddai ganddo'r potensial i danseilio safonau a hygredd y graddau a ddyfarnwyd.
- 3.16. Daeth JR i'r casgliad mai tegwch i bob dysgwr a chanolfan oedd y flaenoriaeth a chymhwyso'r model yn gyson. Esboniodd JR mai ei barn hi a'r Prif Swyddog Gweithredol o ganlyniad oedd na ddylid derbyn tystiolaeth ansoddol i'w hystyried wrth ddyfarnu graddau wedi'u cyfrifo ar gyfer Cyfres Haf 2020.
- 3.17. Dywedodd y Cadeirydd fod Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) wedi dod i'r un casgliad a'i fod wedi penderfynu peidio â derbyn tystiolaeth o'r fath.
- 3.18. Yna rhoddodd LH gyngor cyfreithiol ar y cwestiwn o dderbyn tystiolaeth ansoddol.

- 3.19. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau gan y Bwrdd ynglŷn â chytuno â'r sefyllfa arfaethedig neu gyflwyno gwrth-safbwyntiau.
- 3.20. Holodd aelodau'r Bwrdd a ddylid cael mecanwaith i ganiatáu ystyried achosion eithriadol nas rhagwelwyd.
- 3.21. Nododd PB fod tri phwynt ar gyfer cyflwyno achosion o'i fath wedi'u hystyried. Y rhain oedd:
- Gallai CBAC ysgrifennu at bob canolfan yn awr i ofyn iddynt dynnu sylw CBAC at unrhyw achosion eithriadol
 - Gallai CBAC ysgrifennu at ganolfannau penodol pan fydd yn hysbys bod graddau wedi'u cyfrifo yn gofyn iddynt roi cyfrif am anghysondebau mawr rhwng CAGs a graddau wedi'u cyfrifo
 - Yn ystod y cam apelio
- 3.22. Yn dilyn sgysiau gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a CBAC, daethpwyd i'r farn pe bai unrhyw fecanwaith i gyflwyno tystiolaeth o'r fath y dylai fod cyn y canlyniadau a'r pwynt a ffafrir yn y broses fyddai i CBAC ysgrifennu at bob ysgol yn awr a byddai angen cryn dipyn o dystiolaeth.
- 3.23. Esboniodd PB ei fod o'r farn bod y risg i'r system o dderbyn a gweithredu ar dystiolaeth o'r fath yn fwy na'r manteision o wneud hynny.
- 3.24. Mynegodd rhai aelodau o'r Bwrdd bryderon am hyder y cyhoedd a gofynnwyd ar ba bwynt yr ofnwyd y byddai'r system yn cael ei llethu pe caniateid tystiolaeth o'r fath. Gofynnwyd hefyd a allai consortia rhanbarthol neu Lywodraeth Cymru fod yn rhan o'r gwaith o ddilysu hawliadau gan ganolfannau. Ymatebodd PB fod dilysu gan eraill fel consortia rhanbarthol ac Estyn wedi'i ystyried, ond roedd problemau ynghylch gwrthdaro posibl a'r wybodaeth a oedd ar gael yn gyson y gellid ei defnyddio. Ymatebodd PB ymhellach, pe bai defnyddio tystiolaeth o'r fath yn achosi dadlau pellach, y gallai hyn arwain at hyder is gan y cyhoedd.
- 3.25. Dywedodd aelodau'r Bwrdd mai'r unig amser teg i ofyn am dystiolaeth o'r fath oedd yr amser presennol cyn y canlyniadau. Fodd bynnag, gallai hyn o bosibl arwain at godi llawer o achosion y byddai angen eu prosesu, a allai arwain at oedi wrth brosesu graddau wedi'u cyfrifo. Ymatebodd PB mai gofyn am dystiolaeth o'r fath yn awr fyddai'r unig ddull a allai fod yn bosibl ei ddefnyddio, ond erys y mater o hyd pa faich tystiolaeth fyddai ei angen a pha dystiolaeth y gellid ei derbyn er mwyn newid graddau.
- 3.26. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd a oeddent yn fodlon cefnogi'r cynnig na ddylid derbyn tystiolaeth ansoddol gan ganolfannau.
- 3.27. Roedd y mwyafrif o aelodau'r Bwrdd yn fodlon. Roedd un aelod o'r bwrdd am gofnodi'r anhawster o wneud y penderfyniad hwn yng nghyd-destun egwyddor

cyfiawnder unigol. Daeth un aelod o'r Bwrdd i'r casgliad nad oedd wedi'i ddarbwylllo eto gan y ddadl felly nid oedd yn fodlon.

- 3.28. Gofynnodd JR i'r Bwrdd gytuno ar ddau newid i'r Adroddiad Penderfyniadau:
- Roedd cynnig 2 yn yr Adroddiad Penderfyniadau, ynghylch codi cwyn gyda chanolfan, wedi'i symud i brif gorff testun yr adroddiad (gan fod hwn yn llwybr a oedd bob amser yn agored i'r dysgwr ac nad oedd yn benderfyniad Cymwysterau Cymru).
 - Ychwanegwyd mwy o eglurder at y broses apelio i'r diben y gellid prosesu hyn heb fynd drwy broses apelio lawn pe bai camgymeriad amlwg.
- 3.29. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd a oedd ganddynt unrhyw sylwadau neu bryderon ynglŷn â'r adroddiad penderfyniadau ac adroddiad canfyddiadau'r ymgynghoriad ac a oeddent yn cefnogi'r ddau welliant.
- 3.30. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a aethpwyd at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Ymatebodd PB na chysylltwyd yn rhagweithiol â'r Comisiynydd ac nad ymatebodd i'r ymgynghoriad.
- 3.31. Cadarnhaodd aelodau'r Bwrdd gefnogaeth i'r ddau welliant. Cytunwyd y byddai'r gwelliannau geiriad angenrheidiol yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd.
- 3.32. Diolchodd y Cadeirydd i'r staff am eu gwaith ar yr Adroddiadau Penderfyniadau a Chanfyddiadau.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Cymeradwywyd yr Adroddiad ar benderfyniadau a wnaed yn dilyn ymgynghoriad ac adroddiad canfyddiadau'r ymgynghoriad gan y Bwrdd ar gyfer ei gyhoeddi.
- II. Cytunwyd ar y dull arfaethedig o ymdrin ag ymgeiswyr preifat.
- III. Cytunodd y Bwrdd na ddylid derbyn tystiolaeth ansoddol gan ganolfannau i'w hystyried wrth ddyfarnu graddau wedi'u cyfrifo.

4. Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfres Arholiadau 2020 a'r Cylch Gorchwyl

- 4.1. Cyflwynodd EKP ei phapur ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

- 4.2. Gofynnodd EKP i'r Bwrdd gadarnhau'r penderfyniad a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen drwy e-bost ym mis Ebrill i ymgynghori ar y trefniadau ar gyfer Cyfres Arholiadau Haf 2020.
- 4.3. Cadarnhaodd y Bwrdd y penderfyniad i ymgynghori.
- 4.4. Gofynnodd EKP i'r Bwrdd gymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adlewyrchu nad oedd y grŵp bellach yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Ei rôl ddiwygiedig oedd "ystyried a chynghori" ac roedd y rôl sicrwydd cyffredinol wedi'i dyrchafu i'r diben cyffredinol.
- 4.5. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cylch Gorchwyl diwygiedig.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Cadarnhaodd y Bwrdd y penderfyniad i ymgynghori.
 - II. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cylch Gorchwyl diwygiedig.
- 4.6. Diolchodd y Cadeirydd i staff Cymwysterau Cymru a mynychwyr am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

Diwedd